BOROUGH THEATRE
ABERGAVENNY

MEDI – RHAGFYR

HYDREF 2019

Swyddfa Docynnau

01873 850805

ARCHEBU AR-LEIN:

boroughtheatreabergavenny.co.uk

Borough Theatre, Stryd Groes
Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD

Croeso

Cadw mewn cysylltiad

Edrychwch ar y wefan

boroughtheatre
abergavenny.co.uk

Ymuno yn y sgwrs
@YFenniBorough

Borough
Theatre-Abergavenny

Gallwch gael mwy o wybodaeth am sioeau - gweld pytiau YouTube, gwrando ar gerddoriaeth, darllen adolygiadau, dewis eich seddau ac archebu eich tocynnau ar-lein. Gallwch hefyd ymuno â'n rhestr bostio electronig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau yn y Borough Theatre?

BWYD YN YR ANGEL CYN MYND I'R THEATR

Mae Gwesty'r Angel yn awr yn cynnig ei fwydlen à la carte helaeth yn gynnar felly mae mwy o ddewis ac amrediad prisiau. Mae bwyty'r gwesty, The Oak Room, yn agor am 5.30pm cyn rhai sioeau. I gadw bwrdd ffoniwch **01873 857121** neu archebu ar-lein **www.angelabergavenny.com**
Gwesty'r Angel, 15 Stryd Groes, Y Fenni

Sut i ddod o hyd i ni

Mae'r Borough Theatre yn Stryd Groes yng nghanol y Fenni yn ymyl y farchnad ganolog. Mae arwyddion i ddigonedd o feysydd parcio am ddim gerllaw.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae'r orsaf bysiau a'r orsaf reilffordd o fewn deg munud ar droed o'r theatr.

nationalrail.co.uk
stagecoachbus.com

Dylunio: savageandgray.co.uk 7395-19

Dydd Sadwrn 21 & Dydd Sul Medi

Gŵyl Fwyd Y Fenni H

Gweithgareddau a gynhelir yn y Borough Theatre

- Thinking Drinkers – Heroes of Hooch
- Rhaglen BBC Food
- The Way We Eat Now gyda Bee Wilson a Sador Katz
- The diet that could save the world
- The Future of Farming: A debate
- The Pivotal Pig: 20 years of British food through the eyes of St. John
- Foods of the Islamic World
- Asma Khan – A Life in Food
- Food, families and life gyda Bee Wilson

Mae bandiau garddwrn a thocynnau ar gyfer rhai digwyddiadau ar gael o'n swyddfa docynnau.

Am fanylion pellach ac i archebu ar-lein ewch i **abergavennyfoodfestival.com**

Dydd Llun 7 Hydref 7:30pm

NATIONAL THEATRE WALES

Peggy's Song

Mae monolog ddoniol Katherine Chandler yn cyffwrdd â'r galon wrth iddi drafod cyfeillgarwch annisgwyl Danny Walkman, DJ anlwcus mewn Gorsaf Radio Ysbyty, a Peggy, claf di flewyn ar dafod.

Ar hap, ar ôl ei sioe radio yn Ysbyty Bevan, mae Danny'n dod wyneb yn wyneb â Peggy, yn yr Ardd Obaith. Does ganddynt ddim byd yn gyffredin, ond mae Danny'n grediniol fod pawb yn hoffi cerddoriaeth.

Mae gan bawb gân, ac os oes un peth y gall Danny Walkman ei wneud, cael pobl i ddweud wrtho beth yw eu cân yw hynny. Dyw Peggy'n datgelu fawr ddim, felly mae Danny'n rasio yn erbyn y cloc i geisio ffeindio allan beth yw hoff gân Peggy, a'i chwarae ar y radio.

£14 (consesiynau £12) Myfyrwyr £7

Dydd Iau 10 Hydref 7:30pm

Jamie Smith's Mabon

Mae Jamie Smith's Mabon wedi ennill sawl gwobr am eu cerddoriaeth arbennig. Maent yn archwilio'r traddodiadau Celtaidd, ac yn creu cyfansoddiadau cyfoes o fewn yr arddull; rhoi sain heddiw i syniadau hynafol. Cyfuniad eithriadol o Gerddoriaeth Fyd a gwreiddiau Celtaidd yw'r canlyniad, sy'n llawenu'r enaid ac yn peri i'r traed dapio – a'r cwbl wedi ei gyflwyno'n ddiffwdan gydag hiwmor ysgafn a dawn hynod.

"I'r band yma, perfformio'n fyw yw'r ffordd orau posib o fynegi eu celfyddyd... does neb tebyg iddynt am gyffroi a bywiogi cynulleidfa" (folkradio.co.uk); "does neb tebyg iddynt ymysg eu cymheiriaid" **Songlines**

£20 (consesiynau £18)

Dydd Gwener 11 Hydref 7:30pm

Andrew Lawrence - Clean

Yn ei sioe newydd, mae seren Live at The Apollo a Sioe Deithiol Michael McIntyre, a digrifwr gwrthwynebus mwyaf blaenllaw byd comedi'r DU yn cymryd seibiant o'r holl ddadlau. Dim gwleidyddiaeth. Dim crefydd. Dim pardduo. Dim Rhegi. Dim ond jôcs da a hwyl glan.

"Meistr hiwmor tywyll a phryfociwr gwleidyddol yn ystod y blynyddoedd diwthaf, mae'r comediwr standyp Andrew Lawrence, yn Clean, yn ein hatgoffa fod ganddo ddawn, cystal ag unrhyw gomediwr arall, i ysgrifennu a chyflwyno hiwmor lan, amhleidiol."
British Comedy Guide

£16

Sydd Sadwrn 12 Hydref 7:30pm

Back to Bacharach

Mae'n bleser gan Back to Bacharach, sy'n fawr eu clod gan y beirniaid, gyda chast o'r West End a gallu cerddorol hynod y Magic Moments Orchestra, gyflwyno The Very Best of Burt Bacharach, i ddathlu bywyd yr "Hitmaker" sy'n gyfrifol am un o lyfrau caneuon Americanaidd gorau'r 20fed Ganrif.

Daw Back to Bacharach a The Sensational Soundtrack of the '60s and beyond i chi.

Sioe ddi-dor o glasuron megis *Alfie*, *What The World Needs Now*, *Do You Know The Way To San Jose*, *Walk On By*, *The Look of Love*, *Anyone Who Had a Heart*, *Twenty Four Hours From Tulsa*, *I Say A Little Prayer For You*, *That's What Friends Are For*, *I'll Never For I'll Never Fall In Love Again*, *What's New Pussycat?*, *Raindrops Keep Falling On My Head* a llawer mwy.

£23

Dydd Llun 14 Hydref 10:30am

THEATR IOLO

I Wish I Was a Mountain

Ar ddiwrnod y ffair flynyddol enwog, mae ymwelydd annisgwyl yn dod i dref Faldum. Mae crwydryn yn cynnig gwireddu dymuniad unrhyw un sy'n gofyn. Cyn hir, mae'r ddinas wedi ei thrawsnewid. Mae plasau wedi eu codi lle safai tai bach mwd, ac mae cardotwyr yn cael eu cludo mewn cart a cheffyl. Ac mae dymuniad un dyn i gael ei droi'n fynydd hefyd wedi ei wireddu. Mae'r sioe hyfryd yma'n defnyddio odl, cerddoriaeth fyw, a rhyw fymryn o athroniaeth fetaffisegol yn feiddgar er mwyn ail greu stori tylwyth teg glasurol Hermann Hesse.

£8.50 Ysgolion £6 Athrawon am ddim.

Dydd Mercher 16 Hydref 7:30pm
(Perfformiad Cymraeg)
Dydd Iau 17 Hydref 7:30pm
(Perfformiad Saesneg)

Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff) Cer I Grafu...Sori...Garu!

Wedi ei chyd-cynhyrchu gan Carys Eleri a Chanolfan Mileniwm Cymru

Mae'r sioe gerdd un ddynes yma, sy'n gomedi wyddonol, yn trafod niwrowyddoniaeth, cariad ac unigrwydd.

Gan gyfuno hanesion twymgalon am bopeth sy'n wych yn wael ac yn wirioneddol wallgof am berthnasau, mae'r sioe bersonol hon yn cael ei chyflwyno gyda digonedd o hyfdra chwareus, siocled, cerddoriaeth fywiog a chwtch neu ddau hefyd. Dewch i weld sut mae cariad yn gweithio, pam ei fod yn gwneud i ni ymddwyn yn wallgof a pham mai cwtch yw'r ateb i bopeth.

**** *"Cyfarwydd a doniol tu hwnt, noson arbennig a phersonol"* **Theatre Full Stop**

£14 (consesiynau £12) Myfyrwyr £7

Dydd Gwener 18 Hydref 7:30pm

Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gerddorfa Siambr yn perfformio tua 40 cyngerdd y flwyddyn ac maent wedi chwarae mewn 73 gwlad hyd yma. Mae unawdwyr diweddar ar y fiolín yn cynnwys Nicola Benedetti, Alison Balsam a Julian Lloyd Webber. Mae artistiaid adnabyddus eraill yn cynnwys, Lazar Berman, Mischa Maisky, James Galway, Gil Apap, Alina Ibragimova ac Emma Johnson.

CYFARWYDDWR/FFIDIL:
HANS-PETER HOFMANN

Rhaglen yn cynnwys:

GRIEG – ***Holberg Suite***

MENDELSSOHN – ***Violin Concerto in D minor***

DVORAK – ***Serenade for Strings***

Ewch i'n gwefan neu ffoniwch y swyddfa docynnau am fwy o fanylion ynglŷn â thanysgrifio i gyngherddau clasurol

£18 (concessions £15) Students £7.50

Dydd Sadwrn 19 Hydref 7:30pm

Hope & Social

Band sy'n ymroi eu hunain yn llwyr i bob perfformiad a sy'n pontio'r bwlch yn berffaith rhwng y llwyfan a'r gynulleidfa. Caneuon anthemaidd, melodïau heintus a sioe fyw wefreiddiol. Gyda'u cerddoriaeth llawn egni, hapus, hawdd dawnsio iddo a dawn arddangos ddi-fai, mae Hope & Social yn cynnig profiad bythgofiadwy i'w cynulleidfa. Mae'r band yn hoffi cynnwys pobl ym mhob agwedd o'r perfformiad.

Wedi eu disgrifio fel "un o bum band byw gorau'r DU" **The Independent**

£18 (consesiynau £14)

Dydd Mawrth 29 Hydref – Dydd Gwener 1 Tachwedd 7pm
Dydd Sadwrn 2 Tachwedd 6pm
AAODS JUNIORS

The Addams Family

Ymunwch ag AAODS ar gyfer y sioe gerdd ddoniol hon a fydd yn sïŵr o wneud i chi dapio'ch traed a chlicio'ch bysed yr Hydref hwn. A fydd Wednesday'n llwyddo i ddarbwyllo'i theulu mai'r bachgen y mae'n ei garu yw'r un iddi hi? A fydd Gomez a Morticia yn dawnsio'r tango nes y bore bach? Bydd yn rhaid aros a gweld! Noson gwisg ffansi Calan Gaeaf arbennig ar 31ain o Hydref.

£12 (consesiynau £11) Tocyn Teulu £40 ar gyfer nos Iau yn unig
Cynhyrchiad Amatur H

Dydd Llun 4 Tachwedd 7:30pm
BLACK RAT PRODUCTIONS
A BLACKWOOD MINERS INSTITUTE YN CYFLWYNO
CYD-GYNHYRCHIAD O

ART

Gan **Yasmina Reza**,
Cyfieithwyd gan **Christopher Hampton**
Cyfarwyddwyd gan **Richard Tunley**
Dyluniwyd gan **Sean Crowley**
Cynllun Goleuo gan **Robin Bainbridge**

Dyma gomedi ardderchog, sydd wedi ennill sawl gwobr, gan y tîm sy'n gyfrifol am One Man, Two Guvnors a Loot. Gyda'r actorion Gareth Bale, un o ffefrynnau'r Black RAT (*One Man Two Guvnors, 39 Steps Grav*), Kieron Self (o'r sioe *My Family* ar BBC TV, *Neville's Island* & *Bedroom Farce*) a Richard Tunley (*Bouncers, Bedroom Farce*).

Mae Serge wedi talu crocbris am ddarlun mawr sydd wedi ei beintio'n gyfan gwbwl mewn gwyn. Mae Marc yn casáu'r darlun ac yn methu credu y byddai rhywun y mae'n ei alw'n ffrind, eisiau darn mor fodern. Mae ymgais Yvan i geisio tawelu'r dyfroedd yn aflwyddiannus, ond yn arwain at ganlyniadau doniol tu hwnt.

Graenus, doniol, difyr a thwymgalon, mae ART yn ffenomen.

Canllaw oed +14
Cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru

£14 (consesiynau £12) Myfyrwyr £7

Dydd Mercher 6 Tachwedd 1pm a 6pm

Baba Yaga

Cynhyrchiad Cwmni Theatr Windmill a Imaginate Production

Mae Vaselina yn byw bywyd tawel, yn gweithio fel derbynnydd mewn bloc o fflatiau uchel iawn. Ond mae hyn i gyd yn newid pan mae'n rhaid iddi ddod wyneb yn wyneb â phreswylydd sy'n chwarae cerddoriaeth yn llawer rhu uchel ac yn bwyta jelly babies gyda'i cheg ar agor.

Pwy yw'r cymydog dirgel yma? Oes gobaith y bydd hi'n troi'r gerddoriaeth i lawr? A beth yn union sydd ganddi i swper?

Canllaw oed 7+

"Blasus a dychrynllyd o ddychmygus..." **The Guardian**

£8.50 Ysgolion £6 Athrawon am ddim

Dydd Iau 7 Tachwedd 7:30pm

Cerddorfa'r West End

Byddwch yn barod am noson wefreiddiol o gerddoriaeth gyda rhai o gantorion enwocaf theatrau syfrdanol y West End yn Llundain. Byddant yn adrodd stori bersonol am fyd arbennig ond eto anwadal perthnasau, gan ganu caneuon hoff o'r sioeau, ac yn ymuno â hwy mae pedwar o gerddorion mwyaf talentog Cerddorfa Theatr Gerdd Cymru.

£16 (consesiynau £14)

Dydd Gwener 8 Tachwedd 7:30pm

Buddy Holly & The Cricketers

27 Years of Rock 'n' Rolling The World! 2019

Mae'r sioe wefreiddiol hon wedi rocio a rowlio cynulleidfaoedd ar draws y byd. Mae'r cyngerdd grymus hwn yn cynnwys eu holl glasuron *That'll Be The Day*, *Peggy Sue*, *Heartbeat*, *It Doesn't Matter Anymore*, *Raining In My Heart*, *Oh Boy!* A llawer, llawer mwy.

"Buddy brilliant!"
Graham Norton, BBC One

£20 (consesiynau £18)

Dydd Sadwrn, 9 Tachwedd 7pm (Perfformiad BSL)

The Mystery of the Raddlesham Mumps

Mae'r bardd a'r darlledwr adnabyddus MURRAY LACHLAN YOUNG (Radio 4, Radio 2 a bardd preswyl BBC 6 Music), yn serennu yn y perfformiad teulu cyffrous hwn, sy'n addas ar gyfer cynulleidfa o bob oed!

Mae Raddlesham Mumps yn cyfuno dawn dweud stori rymus gyda sgôr cerddorol arbennig (gan Arun Ghosh), digonedd o fwrlwm thetraidd a rhyw fymryn o falu awyr odiaethol. 'Gwledd theatraidd' sy'n berffaith ar gyfer y rheiny sydd wrth eu boddau â Harry Potter, Tim Burton, Lemony Snicket a The Brothers Grimm!

Canllaw oedran +7

£8.50 50 Tocyn Teulu £32

Dydd Iau 14 Tachwedd 7:30pm

Budapest Café Orchestra

Sefydlwyd y BCO ddeng mlynedd yn ôl gan y cyfansoddwr a'r feiolinydd o Brydain, Christian Garrick. Gyda Cristian yn eu harwain, caiff y gynulleidfa eu llorio gan gymysgedd o gerddoriaeth werin draddodiadol a cherddoriaeth sipsiaidd ei naws o bob cwr o'r Balcanau a Rwsia, Klezmer Laments, Doinas Romaniaidd, Czardas Hwngaraidd ac addasiadau unigryw o rai o'r darnau cerddorol mwyaf enwog erioed.

£18 (consesiynau £14)

Dydd Gwener 15 Tachwedd 7:30pm

Genesis Connected

Sioe deyrnged i ddathlu cerddoriaeth Genesis a'r artistiaid mwyaf llwyddiannus a oedd ynghlwm â'r band: Peter Gabriel, Phil Collins a Mike & the Mechanics.

£20

Dydd Mawrth 19 Tachwedd 7:30pm

A Crawl Down The Ogre

Sgwrs am fynydda gan Doug Scott CBE

Gyda chymorth darluniau a dyddiaduron sydd newydd gael eu canfod, bydd y mynyddwr arloesol, Doug Scott yn adrodd hanes cyffrous dringfeydd heriol, gwaith tîm a brwydr i oroesi er gwaethaf popeth a hynny yn ei arddull gryno nodweddiadol ei hun.

Bydd elw'r noson yn mynd tuag at gefnogi gwaith Community Action Nepal.

£15 (consesiynau £13)

Dydd Mercher 20 Tachwedd 7:30pm

LIPSERVICE

Stranger on a Train Set

Wrth herio llanc ifanc i droi ei gerddoriaeth i lawr, mae Irene Sparrow, dyfeisiwr y bachyn crosio llaw chwith, yn wynebu cyhuddiad o lofruddiaeth ar ôl i'r trên adael twnnel gyda'r llanc ifanc wedi marw.

Ond nid trên gyffredin mo hon, mae pob teithiwr yn darllen llyfr, ac mae pob llyfr yn borth i mewn i fydysawd cyfochrog ffuglen sy'n ymwneud â throsedd ar drenau.

Gyda defnydd medrus o daflunydd a setiau trên, mae LipService yn mynd â'r gynulleidfa ar wibdaith a fydd yn eich gadael allan o wynt ac yn gwneud i chi redeg am y cerbyd lluniaeth.

Ond peidiwch a phoeni, bydd y sioe yma hefyd yn eich helpu i ollwng stem ac yn eich galluogi i or-ddefnyddio llawer mwy o drosiadau'n ymwneud â rheilffyrdd. Sioe sy'n apelio at y rheiny sy'n gwirioni ar nofelau ditectif a threnau stem fel eu gilydd.

£14 (consesiynau £12) Myfyrwyr £7

Dydd Iau 21 Tachwedd 7:30pm

Catrin Finch, Telyn

Mae'r delynores Catrin Finch yn adnabyddus ar draws y byd fel un o delynoresau mwyaf dawnus ei chenhedlaeth ac mae wedi bod yn swyno cynulleidfaoedd yn y DU ac ar draws y byd gyda'i pherfformiadau.

"Mae Catrin wedi gwneud mwy na neb arall yn hanes y delyn i ddod a'i hofferyn i sylw cynulleidfaoedd ehangach"

Rhaglen yn cynnwys:

BACH – *Prelude from Violin Partita No. 3*
DEBUSSY – *Clair de Lune*
FAURE – *Une Chatelaine en sa Tour*
SMETANA – *The Moldau*
WILLIAM MATTHIAS – *Santa fe Suite*

Ewch i'n gwefan neu ffoniwch y swyddfa docynnau am fwy o fanylion ynglŷn â thanysgrifio i gyngherddau clasurol

£18 (consesiynau £15) Myfyrwyr £7.50

Dydd Sadwrn 23 Tachwedd 7:30pm

Think Floyd

Bydd y sioe hon, sy'n newydd sbon ar gyfer 2019 yn cynnwys perfformiad o The Wall yn ei chyfanrwydd yn ogystal â pherfformiad o nifer o glasuron Pink Floyd o Dark Side of the Moon, Wish You Were Here a llawer mwy.

Gyda sioe oleuadau laser wefreiddiol yn gefndir i'r sioe, bydd y cynhyrchiad yma'n ail-greu'r awyrgylch, y wledd weledol a'r athroniaeth gerddorol a gafwyd gan Pink Floyd ar lwyfan fyw.

"Gwych! Mae nhw'n dda iawn."
Pink Floyd's Nick Mason

£24.50

Dydd Llun 25 Tachwedd 7:30pm

Goldie Lookin' Chain

Mae'r rapwyr doniol enwog Goldie Lookin' Chain yn cychwyn ar eu taith Greatest Hits 15th Anniversary World Tour of Wales yn 2019! Bydd y bechgyn yn rhoi'r byd yn ei le tra'n dathlu 15 mlynedd o gerddoriaeth a chwerthin!

£16

Dydd Iau 28 a Dydd Gwener 29 Tachwedd 7:30pm

BREAKTHROUGH PRODUCTIONS

Jude Garland Rides Again

gan Liz Davies

Pan mae Sam, Paul, Frankie a Jo'n penderfynu dianc o ddiflastod bywyd bob dydd a mynd ar wyliau haeddiannol i encilfa yoga anghysbell ar droed mynydd, nid oeddent yn disgwyl gweld wyneb cyfarwydd yn aros amdanynt yno...

Bedair blynedd ar ôl Last Stand gan Jude Garland, mae'r criw yn ôl...ac yn wynebu cymhlethdodau unwaith eto yn y gomedi ddiweddaraf yma gan dîm arbennig Breakthrough Productions.

£9.50 (consesiwn £8.50) Perfformiad Amatur H

Dydd Sul 1 Rhagfyr 3pm

New Oxford Consort

Dyma gyngerdd Nadolig gan y New Oxford Consort, ensemble lleisiol sy'n cynnwys rhai o gantorion ifanc gorau Rhydychen a thu hwnt.

Rhaglen yn cynnwys:

BYRD – Rorate coeli
O magnum mysterium – Victoria
In dulci jubilo – Pearsall
Coventry Carol (Lully lulla, thou little tiny child)
HOLST – In the bleak mid-winter
Ding dong merrily on high
The Three Kings – Cornelius

Ewch i'n gwefan neu ffoniwch y swyddfa docynnau am fwy o fanylion ynglŷn â thanysgrifio i gyngherddau clasurol

£18 (consesiynau £15) Myfyrwyr £7.50

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 7:30pm

LIGHTHOUSE THEATRE
YN CYFLWYNO
CYD-GYNHYRCHIAD GYDA
CHANOLFAN CELFYDDYDAU
PONTARDAWE

It's A Wonderful Life: A Live Radio Play

Mae cerddoriaeth fyw, ensemble o chwe actor ac artist foley sy'n creu effeithiau sŵn, yn adrodd hanes y delfrydydd George Bailey wrth iddo ystyried gwneud diwedd i'w hun un Noswyl Nadolig dyngedfennol. Bydd angen help yr angel hoffus, Clarence, ar George er mwyn newid ei feddwl a deall gwir ystyr y Nadolig.

"Dyma ffordd newydd a dyfeisgar o ailgysylltu gyda stori glasurol am gariad ac achubiaeth" **Chicago Sun Times**
"perfformiad byw syfrdanol ac effeithiol" **(canmoliaeth i Lighthouse Theatre's On Scarborough Front)**

£14 (consensiynau £12) Myfyrwyr £7

Dydd Gwener 6 Rhagfyr 7:30pm

Steeleye Span

Taith Pen Blwydd yn 50 Oed

Hanner can mlynedd yn ddiweddarach ac mae Steeleye Span ar fin dathlu'r garreg filltir anhygoel yma gydag albwm newydd EST'D 1969 a thaith a fydd yn dathlu band sydd mor greadigol a bywydol nawr ag yr oeddent erioed. Gyda'r enwog Maddy Prior yn eu harwain, bydd y grŵp o saith yn defnyddio hanes anhygoel y grŵp i greu noson llawn ffefrynnau ac ambell i sypreis o'r degawdau a fu.

£25

Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr 7:30pm

Christmas with Elvis

Mae'r dyn ei hun, Ken Davies o'r Fenni a'i 'Memphis Mafia' yn dychwelyd gyda'u teyrnged boblogaidd i'r Brenin.

Bydd elw'r noson yn mynd tuag at welliannau i adeilad y Borough Theatre.

£12.50 (consesiynau £10.50)

Dydd Sul 8 Rhagfyr 7:30pm

Andy Fairweather Low & The Low Riders



Daeth Andy Fairweather i'r amlwg gyntaf fel prif leisydd y band Amen Corner, wrth iddo ryddhau un can boblogaidd ar ôl y llall gan gynnwys *Bend Me Shape*, *Hello Suzy* a *Half as Nice*.

Yna cafodd yrfa hynod lwyddiannus ar ei liwt ei hun. *Wide Eyed And Legless* oedd y gan fwyaf llwyddiannus o'i dair albwm yn y 70au. Archebwch eich tocyn yn gynnar – mae ei gyngherddau'n gwerthu allan yn gyflym!

£24

Dydd llun 9 a 10 Rhagfyr 7:30pm

Talon: The Best of the Eagles

Mae'r band yma o saith yn ffenomen ar lefel byd eang ac maent wedi rhoi ystyr newydd i'r term 'teyrnged'.

Fe'ch cynghorir i archebu'n gynnar.

£25

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Iau 12 Rhagfyr 7pm

CYMDEITHAS TREFNU BLODAU Y FENNI

Mwynhewch wledd o gynlluniau blodeuol ar gyfer y Nadolig, wedi eu creu gan Mr Nigel Whyles, sy'n arddangos ar lefel genedlaethol gyda N.A.F.A.S.

£12 H

Dydd Gwener 13 Rhagfyr 7:30pm

Band Bwrdeistref Y Fenni Mistletoe Mania

Ymunwch â Bandiau Hŷn ac Iau Bwrdeistref Y Fenni a'u gwesteion, Côr Meibion Croesyceilog, mewn noson fyrlymus o gerddoriaeth. Bydd y Band Hŷn yn perfformio o dan faton gwefreiddiol eu cyfarwyddwr cerdd Sean O'Neill tra bydd y Band Iau o dan arweinyddiaeth unigryw Lana Tingay.

£8 (consesiynau £6) H

Dydd Sadwrn 14 Rhagfyr 7:30pm

Made In Tennessee

Bydd y rheiny sy'n hoff o ganu gwald yn cael blas o Nashville gyda sioe newydd sbon Soul Street Productions, Made in Tennessee – The Soundtrack of American Country.

Gyda band sy'n cynnwys rhai o gerddorion gorau'r DU, bydd y sioe hon yn eich arwain drwy ddegawdau yn hanes y genre cerddorol sy'n tyfu'n gynt nag unrhyw un arall un y wlad, o sefydlu canu gwlad yn Nhalaethau'r De'r Unol Dalaethau i'r canu gwlad modern a glywir o gwmpas y byd heddiw.

Bydd y cyngerdd yn cynnwys clasuron gan Johnny, June, Dolly a Hank, sêr fel Garth Brooks a Carrie Underwood a sêr canu gwlad byd enwog modern fel Kacey Musgraves a Chris Stapleton.

£20

Dydd Mercher 18 Rhagfyr 11am a 1:30pm
Dydd Iau 19 Rhagfyr 11am a 1:30pm
Dydd Gwener 20 Rhagfyr 11am (Perfformiad BSL) 6pm (Perfformiad Anffurfiol)
Dydd Sadwrn 21 Rhagfyr 11am a 6pm

The Night Before Christmas

Roedd hi'n noswyl Nadolig, a doedd yr un smic i'w glywed gan yr un creadur yn y tŷ, dim hyd yn oed gan lygoden...

Ond arhoswch... Fry yn yr atig, ymhell oddi wrth y tân, roedd Ingrid y Fugeiles a'r Milwr Bach yn breuddwydio am y diwrnod y byddai eu cloc cwcw'n cael ei drwsio ac y byddai Sion Corn yn dychwelyd i'w wir le yn y cyntedd. Ond y tu ôl i'r bargod roedd grym arswydus ar waith – un a oedd, nid yn unig, yn bygwth y cloc cwcw – ond yn bygwth y Nadolig ei hun.

Eleni mae Simply Theatre, mewn cydweithrediad â'r Borough Theatre yn cyflwyno ein Sioe Nadolig broffesiynol, sydd wedi ei chynhyrchu yma yng Nghymru. Sioe hudolus ar gyfer cyfnod hudolus o'r flwyddyn. Sioe a fydd yn gwefreiddio ysgolion, teuluoedd ac unrhyw un sy'n edrych am gynhyrchiad arbennig iawn gan theatr gerddorol y Nadolig Hwn.

Stori antur twymgalon gyda sgôr bendigedig, mae 'The Night Before Christmas' yn siŵr o'ch gadael yn llawn hwyl yr ŵyl.

£8.50 Tocyn Teulu £32 (teulu o 4) Ysgolion £6 Athrawon am ddim

@YFenniBorough

Borough Theatre-Abergavenny

Swyddfa Docynnau

01873 850805

Dydd Sul 22 Rhagfyr 7:30pm

Welcome to Christmas

Ymunwch yn yr hwyl a'r gemau wrth i gwmnïau theatr amatur preswyl Borough Theatre groesawu'r Nadolig yn eu ffordd unigryw eu hunain.

Bydd holl elw'r noson yn mynd i A4B

£8.50 (consesiynau £7.50) H

Talebau Rhodd y Borough Theatre

Caiff y talebau rhodd eu cyflwyno'n ddeniadol ac maent yn gwneud anrheg perffaith. Ar gael mewn symiau o £5, £10 a £20 ac ar werth o'r swyddfa docynnau.

CYNLLUN SEDDI THEATR BOROUGH



GWYBODAETH ARCHEBU

ARCHEBU AR-LEIN

Edrychwch ar y wefan ac archebu ar-lein
www.boroughtheatre abergavenny.co.uk

Noder: Codir ffi archebu o £1 ar bob gwerthiant.

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor Mawrth - Sadwrn 9.30am - 3pm a 1½ awr cyn pob perfformiad.

WYNEB YN WYNEB

Ewch draw i'n Swyddfa Docynnau sydd yn y fynedfa i'r theatr ar dop Stryd Groes.

DRWY FFONIO 01873 850805

Gallwch dalu ar unwaith yn defnyddio pob prif gerdyn credyd a debyd. Gellir anfon tocynnau yn syth i'ch cartref am ffi 80c postio a thrin, neu ei cadw i chi yn y Swyddfa Docynnau.

Cedwir archebion am 8 diwrnod.

Caiff archebion na chafodd eu casglu eu rhyddhau i'w hailwerthu 15 munud cyn y perfformiad.

DRWY E-BOST:

Anfonwch eich archeb gyda manylion cyswllt ffôn
Boxofficeboroughtheatre@monmouthshire.gov.uk

DYCHWELYD TOCYNNAU

Gellir cyfnewid tocynnau nad oes eu heisiau am daleb credyd a rhaid eu dychwelyd o leiaf 24 awr cyn y perfformiad. Nid yw'r cyfleuster hwn ar gael ar gyfer digwyddiadau lle cafodd y theatr ei logi.

RDDC

Yn unol â newidiadau yn y gyfraith diogelu data, rydym wedi diweddaru ein Polisi Preifatrwydd i gynnwys gwybodaeth bellach ar sut mae eich data yn cael ei ddefnyddio ar draws ein holl sianeli marchnata. Gallwch chi adolygu'r polisi hwn ar ein gwefan www.monmouthshire.gov.uk neu cysylltwch â'n swyddfa docynnau er gwybodaeth.

HYNT

Rydym yn aelod o Hynt - cynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda rhwydwaith o theatrau a chanolfannau celf ar draws Cymru. Mae gan holl ddeiliaid cardiau Hynt hawl i docyn rhad ac am ddim i'w cydymaith, gofalwr neu gymhorthydd personol. Mwy o wybodaeth ar Hynt a ffurflen cais i'w lawrlwytho o wefan Hynt
www.hynt.co.uk

Arbed Arian

Mae prisiau rhatach ar gael mewn rhai digwyddiadau ar gyfer plant, myfyrwyr, pobl wedi cofrestru'n ddi-waith, rhai ar gymorth incwm, pobl dros 60 a phobl anabl.

Archebion Grŵp

Dewch â grŵp ac arbed £££oedd! Prisiau rhatach ar gael mewn llawer o berfformiadau i grwpiau o 10 neu fwy - holwch y Swyddfa Docynnau am fanylion.

I logi'r Theatr

ar gyfer sioeau a nodwyd gyda (H) cafodd y theatr ei llogi. Mae'r Borough Theatre ar gael i'w llogi ar gyfer grwpiau perfformiad amatur lleol ac i sefydliadau yn Sir Fynwy ar gyfer digwyddiadau codi arian.

HYGYRCHEDD

Hysbyswch staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch yn archebu os oes gennych unrhyw ofynion arbennig a byddwn yn hapus i helpu.

Mae mynediad i'r theatr drwy lifft yn Neuadd y Farchnad. Mae 4 lle cadair olwyn yn y neuadd ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau a system cymorth clyw is-goch.

Mae gennym gyfleusterau toiled ar gyfer pobl anabl yn agos at y neuadd. Nid yw'r foyer yn hygyrch i rai mewn cadair olwyn, ond mae gwasanaeth hambwrdd lluniaeth ar gael gan ein stiwardiaid.

Mae tocyn am ddim ar gael ar gyfer cymhorthydd sy'n mynd gyda pherson anabl i'r theatr. Ni chodir tâl mynediad ar gyfer plant dan 2 oed, heblaw lle cafodd y theatr ei logi.

NODER

- Mae'n rhaid i blant sy'n mynychu perfformiadau yn y theatr fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.
- Ni chaniateir defnyddio camerâu neu offer recordio yn y neuadd.
- Dim ysmygu mewn unrhyw ran o'r theatr.

DYDDIADUR DIGWYDDIADAU HYDREF / 2019

MEDI		
Sad 21 - Sul 22	Gŵyl Fwyd Y Fenni	
HYDREF		
Llu 7	Peggy's Song	7:30pm
Iau 10	Jamie Smith's Mabon	7:30pm
Gwe 11	Andrew Lawrence - Clean	7:30pm
Sad 12	Back to Bacharach	7:30pm
Llu 14	I Wish I Was A Mountain	10:30am
Mer 16	Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff) Perfformiad Cymraeg	7:30pm
Iau 17	Lovecraft (Not the Sex Shop in Cardiff) Perfformiad Saesneg	7:30pm
Gwe 18	European Union Chamber Orchestra	7:30pm
Sad 19	Hope & Social	7:30pm
Maw 29 - Gwe 1 Nov	The Addams Family	7pm
TACHWEDD		
Sad 2	The Addams Family	6pm
Llu 4	Art	7:30pm
Mer 6	Baba Yaga	1pm & 6pm
Iau 7	Cerddorfa'r West End	7:30pm
Gwe 8	Buddy Holly & The Cricketers	7:30pm
Sad 9	The Mystery of the Raddlesham Mumps	7pm
Iau 14	Budapest Café Orchestra	7:30pm
Gwe 15	Genesis Connected	7:30pm
Maw 19	A Crawl Down The Ogre	7:30pm
Mer 20	Stranger on a Train Set	7:30pm
Iau 21	Catrin Finch	7:30pm
Sad 23	Think Floyd	7:30pm
Llu 25	Goldie Lookin' Chain	7:30pm
Iau 28 & Gwe 29	Jude Garland Rides Again	7pm
RHAGFYR		
Sun 1	New Oxford Consort	3pm
Mer 4	It's A Wonderful Life: A Live Radio Play	7:30pm
Gwe 6	Steeleye Span	7:30pm
Sad 7	Christmas with Elvis	7:30pm
Sun 8	Andy Fairweather Low & The Low Riders	7:30pm
Llu 9 & Maw 10	Talon: The Best of the Eagles	7:30pm
Iau 12	Cymdeithas Trefnu Blodau Y Fenni	7pm
Gwe 13	Abergavenny Borough Band	7:30pm
Sad 14	Made In Tennessee	7:30pm
Mer 18 – Sad 21	The Night Before Christmas	Various Times
Sul 22	Welcome to Christmas	7:30pm

Caiff y Borough Theatre, Y Fenni ei ariannu gan Gyngor Sir Fynwy a'i chefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Rhif Cofrestru TAW. 655543619 Aelod o Creu Cymru a ITC. Mae'r holl fanylion yn gywir adeg cyhoeddi

Borough Theatre, Stryd Groes, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD

monmouthshire sir fynwy
Llywodraeth Cymreig Cymru
Welsh Assembly Government
Creu Cymru
The National Lottery
Y Loteri Genedlaethol
CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY